CYNGOR CYMUNED PISTYLL
COFNODION - CYFARFOD MEDI 2021

DYDDIAD	**Nos Fawrth – 14eg o Fedi 2021**
AMSER	**7 y.h. – Cyfarfod misol y Cyngor**
LLEOLIAD	**Y Festri, Llithfaen**
CADEIRYDD	**Ynyr Ellis**

1.	**CROESO**
	Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Yn bresennol heno roedd John Owen **(JO),** Gwilym Williams **(GW)**, Griffith Jones **(GJ),** Lisbeth James **(LJ)**, William Jones **(WJ),** Sara Williams **(SW),** Sianelen Pleming **(SP).**
2.	**YMDDIHEURIADAU**
	Olwen Roberts **(OR),** Emlyn Hughes **(EH)** a'r Cyng. Aled Wyn Jones **(AWJ)**
3.	**DATGAN DIDDORDEB**
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad
4.	**DIWEDDARIADAU ASEDAU**
	SW - Derbyniwyd sylwadau gan SW bod y bin baw ci'r ochor Pistyll i'r pentref angen ei wagio. Y clerc i wneud y trefniadau perthnasol. **SP -** Esboniodd SP ei bod wedi derbyn sylwadau bod arwyddion y bin newydd yn Saesneg yn unig. Y clerc i wneud ymholiadau gydag Alan Hughes am arwyddion dwy ieithol.
5.	**COFNODION CYFARFOD GORFFENNAF 2021**
	a) CYFLWYNO A MABWYSIADU Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan WJ gyda GW yn eilio a phawb yn cytuno. **b) MATERION YN CODI** **GJ - Arwyddion I Lon Rhosydd** Gofynnodd GJ am ddiweddariad parthed cais i'r Cyngor Sir I leoli dau arwydd pob pen i'r lon. Esboniodd y Clerc bod y mater wedi ei gyfeirio ymhellach gan Steffan Jones I'r Adran Drafnidiaeth ond ni dderbyniwyd diweddariad pellach nag hyn. Esboniodd ymhellach ei bod wedi trafod y mater ymhellach gyda Gareth Roberts Priffyrdd Dwyfor sydd hefyd yn gwneud ymholiadau. Disgwyli'r diweddariad erbyn y cyfarfod nesaf.

LLOFNODWYD ..... DYDDIAD .....

	c) SP - Cyfathrebu gyda'r Cyngor Gofynnodd SP pe bai'r aelodau yn cysidro newid eu cytundeb i beidio ag ymuno a'r drafodaeth gyda chlercod eraill y Sir parthed cwynion am gyfathrebu gydag adrannau o'r Cyngor Sir. Esboniodd ei bod wedi methu cael ymateb i e-bost a galwadau ffôn i drafod mater cyfreithiol brys. Cytunodd yr aelodau. **d) SP - Cylch gorchwyl Gôr Yrru Llithfaen** Adroddodd SP ei bod wedi derbyn y wybodaeth oedd ei angen gan y clerc a'i bod yn bwriadu rhoi hysbyseb yn Llythyr Llithfaen am fwy o wirfoddolwyr i'r Cylch Gorchwyl Cyflymder yn Llithfaen.
6.	**CEISIADAU CYNLLUNIO**
	Nid dderbyniwyd cais i'w drafod erbyn y cyfarfod. Gofynnodd GW am ddiweddariad parthed y cwyn am gam ddefnydd o adeilad - esboniodd y clerc ei bod wedi gyrru yn gofyn am ddiweddariad i'r Adran Gynllunio ond heb dderbyn diweddariad hyd yn hyn.
7.	**GWERSYLLA YN Y MAES PARCIO**
	Nodwyd bod yr arwydd bellach wedi ei dderbyn ac ei leoli ar y maes parcio ar dop y Nant. Ychwanegodd LJ ei bod wedi derbyn gwybodaeth bellach wrth sgwrsio gyda pherchnogion campervans ar y safle fod y safle yn parhau i gael ei hysbysebu ar y we. Cynigiodd SP I'r Cyngor fanteisio ar gynnig y Cyngor Sir I leoli arwyddion pellach yn y gymuned yn gwahardd gwersylla dros nos mewn culfannau. Y clerc i wneud cais am 4 arwydd. Adroddodd SP drafodaeth bellach oedd wedi ei gael gyda'r cyfreithiwr parthed y gwersylla a strategaeth sydd wedi ei gytuno rhwng y Cyngor a'r heddwas.
8.	**Y GANOLFAN**
	Adroddodd SP bod gwybodaeth wedi ei dderbyn bod 'dry rott' hefyd wedi ei ddarganfod yn yr ystafell snooker, prif ystafell y Ganolfan ac adran o'r to. Esboniodd ymhellach bod Pwyllgor y Ganolfan wedi llythyru gyda Thŷ'r Ysgol i egluro a hysbysebu. Mae gwaith ar droed i ddarganfod costau i glirio'r dry rott a'r tamprwydd a hyd yn hyn roedd rhaid gohirio Cyfarfod Gyda'r Cyngor.
9.	**LLWYBR CERDDED I LITHFAEN**
	Esboniodd y clerc ei bod wedi derbyn cadarnhad gan AJ bod cais wedi cael ei wneud parthed y llwybr ond nid oedd ganddo ddiweddariad pellach. Cytunwyd i ohirio'r drafodaeth tan y cyfarfod nesaf.

10.	**GW - CAIS AM FIN BAW CI GER GWERINDY YM MHISTYLL**
	Esboniodd GW ei fod wedi cael cais gan drigolion Pistyll i'r Cyngor Cymuned drafod posibilrwydd o osod bin baw ci ym Mhistyll. Can fod y biniau ym Mhistyll wedi bod yn llwyddiannus rhan fwyaf cytunodd yr aelodau bydd hyn yn ddefnyddiol i'r trigolion a'r gymuned a gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir am ganiatâd i leoli bin maint 25lts a symud ymlaen gyda'i archebu bryd hynny.
11.	**ADRODDIAD ARCHWILWYR MEWNOL**
	Mabwysiadwyd a chymeradwywyd sylwadau'r adroddiad.
12.	**FFRAMWAITH ADFYWIO CYNGOR GWYNEDD - ARDAL NI 2035**
	Trafodwyd elfennau o'r wybodaeth a dderbyniwyd - cytunwyd bydd yr aelodau yn rhannu ei ymatebion i'r cwestiynau ymhen wythnos i'r cyfarfod - y clerc i'w gyrru ymlaen i'r swyddog priodol bryd hynny.
13.	**MATERION LLEOL**
	a) GJ – Pont Min Afon Cais gan GW am wybodaeth parthed conau o amgylch y Bont. A oes bwriad cynnal gwaith ar y safle. Y Clerc i ofyn i Gyngor Gwynedd. **b) GJ – Cais i leoli Potiau blodau ym Llithfaen gan y trigolion** Esboniodd **GJ** bod arian wedi ei godi ar gyfer potiau blodau yn y pentref gan grŵp lleol a gofynnodd am ganiatâd i'w lleoli yn y pentref. - Cytunodd yr aelodau a chytunodd **GJ** eu lleoli **c) SP – Problem gyda marciau dwr ar lon y Nant** Adroddodd SP ei bod wedi derbyn cwyn am ddifrod i fodur wrth daro un o'r marciau dwr. Cytunodd yr aelodau nad oeddent yn amlwg ers i'r lon gael ei lledu. **d) SP – Knott weed yn broblem ar lon Rhosydd** Eglurodd SP bod y Knott Weed yn byrlymu i ledaenu ar hyd y lon ac yn creu perygl i gerddwyr a modurwyr. Y clerc i ofyn i Gyngor Gwynedd am adborth. **e) GW – Cais i'r Fynwent gael ei ail thorri** Nodwyd bod y Cyngor wedi cytuno yn flaenorol i ddarparu ail doriad os bydd ei hangen. Y clerc i wneud y trefniadau perthnasol. **f) SP - Arwyddion cyflymder y ddwy ochor i Lithfaen wedi dirywio** Esboniodd SP nad oedd yr arwyddion cyflymder yn amlwg bellach – Y clerc i adrodd gwyn i'r Cyngor Sir.

14. GOHEBIAETH A GWYBODAETH

a) YMGYNGHORIAD AR DRETHI LLEOL AR GYFER AIL GARTREFI A LLETY HUNANARLWYO – IS-ADRAN DIWYGIO CYLLID LLYWODRAETH LEOL
Gan nad oedd AJ yn bresennol i roi adborth ar y mater cytunwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

b) PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – DATGANIAD BLYNYDDOL
Nododd y clerc ei bod wedi cwblhau'r datganiad ac wedi ei yrru nôl yn dilyn penderfyniad yr aelodau i beidio â derbyn unrhyw daliad yn eu cyfarfod blynyddol.

c) NODYN BRIFFIO: AR GYFER CYNGHORAU CYMUNED A THREF - CYFARFODYDD AML-LEOLIAD
Rhannwyd y wybodaeth – cytunwyd bydd y clerc yn dilyn y rheolau.

d) JOHN MORRIS - DOGFENNAU GWYBODAETH PARTHED HYFFORDDIANT GORCHWYLIO GYRRU
Trafodwyd ym mhwynt 5(d)

e) CYFARFOD PWYLLGOR ARDAL ARFON/DWYFOR UN LLAIS CYMRU A GYNHELIR AM 7.00PM AR 22 MEDI 2021
Rhannwyd y wybodaeth ymlaen llaw – ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

15. CYLLID

a) CYSONIAD Y CYFRIFON
Cymeradwywyd y cysoniad gyda'r aelodau yn cytuno ei gywirdeb

b) CYFRIFLEN BANC

CYFRIF CYFREDOL - 1 GORFFENNAF – 31 AWST 2021

BALANS CYCHWYN -		**£7,488.81**
RHIF SIEC	**TALIADAU**	**DERBYNIADAU**
201213	**19.10**	
201212	**160.00**	
210204	**120.00**	
		6,000.00
BALANS CAU –		**£13, 189.71**

CYFRIF CADW - 7 ORFFENAF – 6 MEDI 2021

BALANS CYCHWYN -	**£2,660.80**
	DERBYNIADAU
	0.07
BALANS CAU	**£2,660.87**

a) **TALIADAU I'W CYMERADWYO**

201214	**A. Hughes Jones Dyson**	**180.00**
201215	**Cyflog Clerc Awst A Medi**	**320.00**
210216	**Treuliau Clerc Awst a Medi**	**37.80**
210217	**Archwilwyr Mewnol**	**180.00**

16. **TREFNIADAU A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fawrth y 12fed o Hydref – Y Festri, Llithfaen.